# PWYLLGOR CRAFFU PERFFORMIAD

Cofnodion cyfarfod o’r Pwyllgor Craffu Perfformiad a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun a thrwy gynhadledd fideo, Dydd Iau, 7 Mawrth 2024 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Ellie Chard, Bobby Feeley, Martyn Hogg, Carol Holliday, Alan Hughes, Hugh Irving (Cadeirydd), Paul Keddie, Diane King, Terry Mendies, Gareth Sandilands (Is-Gadeirydd) ac Andrea Tomlin.

## HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Llywodraethu a Busnes (GW), Pennaeth Addysg (GD), Prif Archwilydd Mewnol (BC), Pennaeth y Gwasanaeth Cymorth Corfforaethol: Perfformiad ac Asedau Digidol (HV-E), Pennaeth y Gwasanaeth Cymorth Corfforaethol: Pobl (CR), Prif Reolwr Addysg (RT), Athro Ymgynghorol Addysg Ddewisol yn y Cartref (JW), Cydlynwyr Craffu (RE a KE) a Gweinyddwyr Pwyllgorau (SJ a NH).

**Aelodau Cyfetholedig Addysg –**
Colette Owen a Neil Roberts yn bresennol ar gyfer Eitem 5 ar y Rhaglen.

**Aelodau Arweiniol yn bresennol ar ôl cael gwahoddiad gan y Pwyllgor:**
Y Cynghorydd Gill German: Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Theuluoedd a’r Cynghorydd Gwyneth Ellis: Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol.

**Arsylwyr:** Y Cynghorwyr Joan Butterfield, Jeanette Chamberlain- Jones a Jon Harland a’r Aelod Lleyg, David Stewart.

## 1 YMDDIHEURIADAU

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Julie Matthews, Aelod Arweiniol Polisi, Cydraddoldeb a Strategaeth Gorfforaethol a oedd wedi cael gwahoddiad i fynychu ar gyfer eitem fusnes 6. Fodd bynnag, roedd y Cynghorydd Gwyneth Ellis: Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol yn bresennol i gyflwyno’r adroddiad hwnnw.

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd yr Aelodau canlynol gysylltiad personol yn eitem fusnes 5, ‘Cefnogi a Monitro Darparu Addysg Ddewisol yn y Cartref’, yn eu rôl fel Llywodraethwyr Ysgol:

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd Ellie Chard | Llywodraethwr Awdurdod Addysg Lleol (AALl) yn Ysgol Tir Morfa |
| Y Cynghorydd Bobby Feeley | Llywodraethwr AALl yn Ysgol Stryd Rhos |
| Y Cynghorydd Martyn Hogg | Rhiant-lywodraethwr yn Ysgol Gynradd Wirfoddol Llanelwy |
| Y Cynghorydd Carol Holliday | Llywodraethwr Cyngor Tref/Cymuned ar gyrff llywodraethu Ysgol Penmorfa ac Ysgol Clawdd Offa |
| Y Cynghorydd Alan Hughes | Llywodraethwr yn Ysgol Caer Drewyn |

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd Paul Keddie | Llywodraethwr yn Ysgol Bryn Collen |
| Y Cynghorydd Diane King | Llywodraethwr yn Ysgol Christchurch |
| Neil Roberts | Llywodraethwr yn Ysgol y Parc |
| Y Cynghorydd Gareth Sandilands | Llywodraethwr AALl yn Ysgol Clawdd Offa |

Datganodd y Cynghorydd Andrea Tomlin gysylltiad personol yn yr un eitem fusnes gan ei bod yn gydnabod agos i unigolyn sy'n mynd trwy'r broses addysg ddewisol yn y cartref ar hyn o bryd.

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw eitemau brys gyda'r Cadeirydd na'r Cydlynydd Craffu cyn dechrau'r cyfarfod.

## 4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Perfformiad a gynhaliwyd ar 25 Ionawr 2024.

***Penderfynwyd**: y dylid cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Perfformiad a gynhaliwyd ar 25 Ionawr 2024 fel cofnod gwir a chywir o'r gweithrediadau.*

## 5 ADDYSG DDEWISOL YN Y CARTREF

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Phobl Ifanc, y Cynghorydd Gill German, adroddiad ar Addysg Ddewisol yn y Cartref (a ddosbarthwyd ymlaen llaw).

Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Pwyllgor i dawelu meddwl yr Aelodau fod Cyngor Sir Ddinbych (CSDd) yn bodloni'r gofynion statudol ar gyfer Addysg Ddewisol yn y Cartref o fewn y Sir. Roedd yr adroddiad yn cynnwys trosolwg o'r gweithdrefnau sydd ar waith a chyfrifoldebau diogelu'r Cyngor.

Arweiniodd y Pennaeth Addysg yr Aelodau drwy'r adroddiad (a dosbarthwyd ymlaen llaw).

Roedd addysgu gartref yn derm a ddefnyddiwyd pan fo rhieni yn dewis addysgu eu plant yn y cartref yn lle eu hanfon i'r ysgol. Roedd addysgu gartref yn adlewyrchu amrywiaeth o ddulliau ac roedd yn caniatáu ymagwedd unigol i blant sydd wedi'i deilwra i anghenion a diddordebau penodol pob plentyn. Roedd nifer o rieni sy'n addysgu gartref yn teimlo eu bod yn gallu diwallu anghenion a steiliau dysgu eu plant yn fwy effeithiol nag mewn ystafell ddosbarth.

Nid oedd disgwyl i blant sy'n cael eu haddysgu gartref ddilyn y Cwricwlwm i Gymru nac unrhyw gwricwlwm penodol arall na bodloni meini prawf ar gyfer y nifer o oriau dysgu. Gall y dull addysgu gartref amrywio ar gontinwwm o ddull addysgu ffurfiol, strwythuredig wedi'i seilio ar amserlen, drwodd i addysg awtonomaidd neu sy'n cael ei arwain gan blentyn.

Cyfrifoldeb y rhiant oedd darparu addysg addas, effeithlon, llawn amser, yn unol ag oedran, gallu a doniau'r plentyn.

Rôl yr Awdurdod Lleol oedd canfod plant neu bobl ifanc nad oeddent yn derbyn addysg addas, effeithlon, llawn amser. Nid rôl yr awdurdod oedd darparu'r addysg, fodd bynnag, roedd cymorth gan yr ALl ar gael ac yn cael ei ddarparu pan ofynnir amdano. Gal yr awdurdod ymgymryd â'r rôl hon mewn sawl ffordd wahanol. Y peth pwysicaf oedd ymgysylltu â'r teuluoedd mewn modd cadarnhaol a chefnogol a meithrin perthynas i sicrhau y gellir adnabod fod dysgu yn digwydd, ei fod yn addas ac yn gynaliadwy.

Cyn i ddysgwyr gael eu tynnu oddi ar gofrestr yr ysgol, dylid rhannu Canllawiau Statudol Llywodraeth Cymru gyda theuluoedd er mwyn iddynt wybod beth a ddisgwylir ganddynt er mwyn addysgu gartref. Ar ôl i deuluoedd symud i Addysg Ddewisol yn y Cartref, byddai protocol Sir Ddinbych, a ddiweddarwyd ym mis Chwefror 2024 (a ddosbarthwyd ymlaen llaw yn Atodiad 1), yn cael ei anfon at deuluoedd i'w cefnogi nhw i ddechrau arni.

Roedd ymweliad â'r cartref yn cael ei gynnig i bob teulu sy'n cynnig Addysg Ddewisol yn y Cartref i drafod y ddarpariaeth a ddarperir. Roedd hyn yn ffordd effeithiol o gysylltu â phob teulu ac roedd yn gyfle gwych i gyfarfod â'r dysgwyr a chlywed eu safbwyntiau nhw. Roedd hyn hefyd yn rhoi'r cyfle i ddysgwyr egluro'r hyn yr oeddent wedi'i ddysgu yn eu geiriau eu hunain. Nid oedd yn rhaid i deuluoedd dderbyn ymweliad â'r cartref ac roedd yn well gan rai teuluoedd anfon adroddiad addysgiadol neu adroddiad cefnogi gan drydydd parti i'r awdurdod addysg lleol (AALl).

Ar hyn o bryd, roedd gan Sir Ddinbych 158 o ddysgwyr ar y gofrestr Addysg Ddewisol yn y Cartref. Bu cynnydd amlwg ers mis Awst 2016 pan mai 94 o ddysgwyr oedd ar gofrestr Addysg Ddewisol yn y Cartref yr ALl. Gall niferoedd y dysgwyr Addysg Ddewisol yn y Cartref amrywio yn ystod y flwyddyn ysgol.

Bob blwyddyn roedd yr ALl yn derbyn grant gan Lywodraeth Cymru i gefnogi gwaith dysgu teuluoedd sy'n Addysgu Gartref. Ym mis Hydref 2023, dangosodd 76 o'r 141 o deuluoedd ar y gofrestr bryd hynny ddiddordeb a chawsant eu cefnogi'n ariannol.

Yn anffodus, yn unol ag Awdurdodau Lleol eraill, roedd gan Sir Ddinbych nifer fechan o deuluoedd sydd naill ai'n gwrthod neu sydd yn gyndyn o ymgysylltu. Fel ALl, mae Sir Ddinbych yn mynd ati i ymgysylltu gyda'r teuluoedd hyn drwy broses strwythuredig o lythyrau penodol sy'n cael eu hanfon ar adegau penodol. Rhwng y llythyrau yma, bydd yna alwadau ffôn, bydd e-byst yn cael eu hanfon a bydd ymweliadau heb eu trefnu'n digwydd er mwyn ceisio ymgysylltu a chefnogi'r teuluoedd. Roedd y swyddog Addysg Ddewisol yn y Cartref yn gweithio'n agos gyda Thîm Gwaith Cymdeithasol Addysg yn yr achosion yma er mwyn ceisio sicrhau bod unrhyw bryderon am ddiogelu yn cael eu trin yn brydlon.

Bu i Dîm Addysg Ddewisol yn y Cartref Sir Ddinbych dderbyn gwobr Aur i gydnabod y gwaith a wnaed gyda phlant sy'n cael eu haddysg gartref.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddogion am yr adroddiad a chroesawyd cwestiynau gan yr Aelodau.

Bu i'r Aelodau gwestiynu sut eir ati i fonitro'r addysg a ddarperir gartref. Eglurodd y Pennaeth Addysg nad rôl yr awdurdod oedd monitro ansawdd yr addysg a ddarperir gan y teulu. Rôl yr awdurdod oedd cefnogi teuluoedd Addysg Ddewisol yn y Cartref a nodi dysgwyr nad oeddent yn derbyn unrhyw addysg yn y cartref. Roedd gwybodaeth yn egluro rôl Addysg Ddewisol yn y Cartref yn yr adroddiad (a ddosbarthwyd ymlaen llaw), ac roedd hwn yn cael ei rannu gyda rhieni pan oedd teuluoedd yn ystyried Addysg Ddewisol yn y Cartref, yn egluro eu cyfrifoldebau.

Pwysleisiodd y Swyddogion nad oedd disgyblion â phroblemau iechyd oedd yn cael eu haddysgu gartref gan diwtoriaid a drefnwyd gan ysgol yr awdurdod addysg yn cael eu dosbarthu fel disgyblion Addysg Ddewisol yn y Cartref.

Bu i'r Aelodau gwestiynu'r broses a oedd ar waith pan oedd pob lefel o ohebiaeth wedi'i wrthod gan y teulu. Dywedodd y Pennaeth Addysg bod gweithdrefn genedlaethol ar waith a oedd yn cael ei dilyn. Roedd ymgysylltu â rhai teuluoedd Addysg Ddewisol yn y Cartref yn anodd, os oedd pob maes o ohebiaeth ac ymgais i gyfathrebu ac ymgysylltu â'r teuluoedd wedi'i geisio, yna byddai'n dod yn fater cyfreithiol gyda Gorchymyn Addysg yn cael ei roi ar waith.

Bu i'r Aelodau gydnabod y cynnydd sylweddol mewn dysgwyr Addysg Ddewisol yn y Cartref ers 2016 a chwestiynu a oedd y cyllid wedi cynyddu gyda'r niferoedd. Dywedodd y Pennaeth Addysg fod cyllid yn her. Roedd Addysg Ddewisol yn y Cartref yn derbyn cyllid grant ac yn ddiweddar bu newid i'r ffordd yr oedd grantiau'n cael eu derbyn. Roedd pob grant yn mynd drwy'r Awdurdod Lleol, roedd 1 grant gyda 4 elfen yn ymwneud â sut ellir gwario'r arian. Nid oedd y cyllid/grantiau wedi cynyddu gyda nifer y dysgwyr Addysg Ddewisol yn y Cartref. Pwysleisiwyd nad oedd y cynnydd yn nifer y disgyblion Addysg Ddewisol yn y Cartref yn unigryw i Sir Ddinbych, roedd yn cael ei adlewyrchu ar draws y rhan fwyaf o'r ardaloedd ALl. Roedd y nifer uchaf o ddisgyblion Addysg Ddewisol yn y Cartref yn y sector uwchradd, gyda gorbryder ac anawsterau gyda bywyd ysgol bob dydd yn rheswm i rai teuluoedd ddewis darparu Addysg Ddewisol yn y Cartref. Mewn rhai achosion, bu i rai disgyblion ddychwelyd i addysg prif ffrwd yn dilyn cyfnod o gael eu haddysgu gartref, rhwng mis Medi 2023 a mis Chwefror 2024, fe wnaeth 22 o ddisgyblion yn Sir Ddinbych ddychwelyd i gael eu haddysgu o fewn lleoliad ysgol.

Mynegodd Aelodau bryderon o ran monitro/cynnal gwiriadau ar deuluoedd Addysg Ddewisol yn y Cartref a gofynnwyd a oedd trafodaethau'n cael eu cynnal gyda'r Awdurdod Addysg Lleol (AALl). Eglurodd y Pennaeth Addysg bod sgwrs yn cael ei gynnal pan fo teuluoedd yn ystyried addysgu eu plant gartref, er mwyn sicrhau bod rhieni yn deall yr hyn a oedd ynghlwm a'r hyn a oedd i'w ddisgwyl ganddynt.

Gofynnodd yr Aelodau a oedd dysgwyr Addysg Ddewisol yn y Cartref yn sefyll arholiadau er enghraifft TGAU, eglurodd yr Athro Ymgynghorol Addysg Ddewisol yn y Cartref nad oedd gofyn i deuluoedd Addysg Ddewisol yn y Cartref ddilyn y cwricwlwm ac felly nid oedd yn rhaid iddynt sefyll unrhyw arholiadau os nad oeddent yn dymuno gwneud hynny. Fodd bynnag, yn ei rôl byddai'n annog disgyblion i sefyll arholiadau er mwyn hybu eu rhagolygon gyrfa. Rhan o'i rôl oedd

cyfeirio'r disgyblion a rhieni at yr adnoddau a oedd ar gael iddynt, e.e. heriau darllen yr haf mewn llyfrgelloedd ac ati a'u cefnogi i sefyll arholiadau os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Byddai disgyblion Blwyddyn 10 ac 11 yn cael gwybodaeth gan Gyrfa Cymru i'w helpu nhw i gynllunio ar gyfer y dyfodol.

Trafododd yr Aelodau yr effaith ar brofiadau cymdeithasol plentyn a oedd yn cael ei addysgu gartref a cheisio eglurder ynghylch unrhyw gymorth a oedd ar gael i fynd i'r afael ag ef. Dywedodd y Pennaeth Addysg bod agweddau cymdeithasol plentyn sy'n cael ei addysgu yn y cartref yn rhywbeth i'r rhieni ei ystyried ac roedd yn rhan o'r trafodaethau o'r dechrau. Roedd y Tîm Addysg Ddewisol yn y Cartref yn gweithio gyda Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig i annog teuluoedd Addysg Ddewisol yn y Cartref i gymdeithasu gyda'i gilydd drwy ddefnyddio'r cyfleusterau. Dim ond swm cyfyngedig o gyllid oedd yn cael ei roi gan Lywodraeth Cymru i deuluoedd Addysg Ddewisol yn y Cartref ddod ynghyd i ganiatáu profiadau cymdeithasol. Roedd gwybodaeth yn cael ei rannu gyda theuluoedd disgyblion Addysg Ddewisol yn y Cartref ar grwpiau ac ati a oedd ar gael iddynt eu mynychu gyda'r bwriad o wella'r elfen rhyngweithio cymdeithasol o'u dysgu.

Cadarnhawyd nad oedd Estyn yn ymwneud o gwbl â disgyblion a oedd yn derbyn Addysg Ddewisol yn y Cartref. Roedd cyfrifoldebau'r Rheolydd ond yn ymestyn i archwilio trefniadau'r awdurdod addysg lleol ar gyfer darparu cymorth i ddisgyblion a theuluoedd Addysg Ddewisol yn y Cartref fel rhan o'u harchwiliad o Wasanaeth Addysg yr ALl. Nid oedd GwE yn ymwneud o gwbl â disgyblion Addysg Ddewisol yn y Cartref ychwaith.

Pwysleisiodd y Pennaeth Addysg pe byddai gan yr awdurdod unrhyw bryderon diogelu yn ymwneud â phlentyn/disgybl, byddai'r Gweithdrefnau Diogelu yn dechrau fel mater o frys.

Mynegodd yr Aelodau eu pryderon o ran y diffyg rheoliadau cenedlaethol canfyddedig sy'n llywodraethu cyfrifoldebau unigolion a theuluoedd sy'n dewis addysgu eu plant gartref ac felly gofynnwyd bod yr Aelod Arweiniol a'r Pennaeth Addysg yn cysylltu â Llywodraeth Cymru ar y mater. Dywedodd y Pennaeth Addysg y byddai'n codi'r mater gydag Arolygydd Estyn cyswllt Sir Ddinbych yn ystod eu cyfarfod nesaf ddechrau haf 2024.

Bu i'r Cadeirydd ddiolch i'r Aelod Arweiniol a'r Swyddogion am yr adroddiad manwl ac am ateb cwestiynau Aelodau'r Pwyllgor.

Yn dilyn trafodaeth fanwl:

***<u>Penderfynwyd</u>: yn amodol ar y sylwadau a'r arsylwadau uchod –***

***(i) cymeradwyo'r polisïau, gweithdrefnau a'r dull a gymerwyd gan Wasanaeth Addysg y Cyngor i gefnogi a monitro darpariaeth Addysg Ddewisol yn y Cartref;***

***(ii) cydnabod ymdrechion staff y Gwasanaeth Addysg i sicrhau bod y Cyngor yn diwallu ei gyfrifoldebau statudol o ran disgyblion sy'n dewis cael eu haddysgu gartref, wrth sicrhau hefyd eu bod yn cael eu cefnogi a'u diogelu'n briodol.***

*(iii)* ***gofyn bod Adroddiad Gwybodaeth yn cael ei gylchredeg i aelodau'r Pwyllgor ymhen 12 mis yn manylu'r data a'r tueddiadau mewn perthynas â nifer y disgyblion yn y sir sy'n cael eu haddysgu gartref; ac***

*(iv)* ***argymell fod yr Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Theuluoedd, ar y cyd â swyddogion y Gwasanaeth Addysg, yn ysgrifennu at Weinidog Addysg a'r Gymraeg Llywodraeth Cymru yn gofyn i'r Llywodraeth gyflwyno rheoliadau sy'n llywodraethu cyfrifoldebau'r rhai sy'n dewis addysgu eu plant gartref.***

## 6 A YW SWYDDOGAETHAU CYMORTH CORFFORAETHOL Y CYNGOR YN EFFEITHIOL?

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol, yr adroddiad (a ddosbarthwyd ymlaen llaw).

Roedd adroddiad gwreiddiol Archwilio Cymru wedi archwilio trefniadau'r Cyngor ar gyfer ei Wasanaethau Corfforaethol o dan bedair adran, Adnoddau Dynol, Gwasanaethau Cwsmeriaid Corfforaethol, Gwasanaethau Digidol ac Archwilio Mewnol. Roedd canlyniadau'r adolygiad yn gadarnhaol gyda dim ond dau argymhelliad, roedd ymatebion y Cyngor i'r argymhellion ynghlwm â'r adroddiad. Roedd yr adroddiad yn edrych ar y weledigaeth a chyfeiriad strategol y swyddogaethau cymorth corfforaethol i ystyried os ydynt yn cefnogi amcanion y Cyngor yn effeithiol ac yn ddigonol. Bu i'r adolygiad hefyd ystyried os yw swyddogaethau cymorth corfforaethol y Cyngor yn cymryd ystyriaeth o'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

Rhoddodd y Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol: Pobl fanylion pellach i'r Aelodau o ran yr adroddiad a'i argymhellion.

Roedd yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor yn ymwneud ag Adroddiad Archwilio Cymru ar 'A yw Swyddogaethau Cymorth Corfforaethol y Cyngor yn Effeithiol?' dyddiedig Mai 2023 ac yn rhoi diweddariad ar y cynnydd a wnaed yn erbyn yr argymhellion yn yr adroddiad. Roedd yr adroddiad er mwyn i'r Pwyllgor ystyried y cynnydd a wnaed hyd yma i ymdrin â'r ddau argymhelliad a wnaed gan Archwilio Cymru yn eu hadroddiad ym Mai 2023 ynghyd â chynlluniau'r Cyngor ar gyfer darparu digon o adnoddau ar gyfer ei swyddogaethau Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol ehangach.

Bu i'r adolygiad ganfod fod gan swyddogaethau cymorth corfforaethol y Cyngor ddealltwriaeth dda o'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ond nid oedd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn ystyried yr egwyddor yn gyson yn ei holl waith archwilio, roedd rhai Polisïau Adnoddau Dynol wedi dyddio ac er bod gan y Cyngor drefniadau monitro priodol ar waith, nid oedd eto wedi ystyried amcanion strategol y dyfodol ac anghenion o ran adnoddau'r swyddogaethau a archwiliwyd.

Roedd yr adroddiad Archwilio yn gwneud dau argymhelliad a chafodd copi o ymateb Rheolwyr gwreiddiol y Cyngor (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) ei ystyried gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 26 Gorffennaf 2023 a gan y Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Craffu (GCIGA). Ers cyhoeddi'r adroddiad roedd cynnydd sylweddol wedi ei wneud ar y camau gweithredu a nodwyd i ymdrin â'r

argymhellion.  Cyfeiriwyd yr Aelodau at dabl o’r argymhellion o’r adroddiad a chynnydd y camau gweithredu hyd yma.  Allan o’r pedwar cam gweithredu, roedd dau o’r camau gweithredu wedi’u cwblhau, un wedi’i gwblhau’n rhannol, ac roedd un cam gweithredu eto i’w gwblhau.

Yn ymwneud ag argymhelliad un (R1) - adolygu polisïau sydd wedi dyddio, dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol: Pobl wrth yr Aelodau bod 50% o bolisïau'r Cyngor bellach wedi’u hadolygu ac yn gyfredol.  Roedd polisïau'n cael eu diweddaru pan oedd datblygiadau newydd o fewn y ddeddfwriaeth.  Roedd yr holl bolisïau'n cael eu hadolygu bob tair blynedd yn unol â Pholisi’r Cyngor, wrth symud ymlaen roedd yn bwysig bod adolygiadau anffurfiol o fewn y tair blynedd yn cael eu cofnodi’n rheolaidd.

Yn ymwneud ag argymhelliad dau (R2) - cysondeb Archwilio Mewnol o ystyried yr egwyddor datblygu cynaliadwy, roedd Archwilio Mewnol bellach yn cynnwys cwestiynau i ganfod sut oedd gwasanaethau yn cydymffurfio â’r egwyddor datblygu cynaliadwy ac Allyriadau Carbon wrth ddatblygu’r cwmpas ar gyfer bob archwiliad a gynhelir.

Diolchodd y Cadeirydd i’r Swyddogion am yr adroddiad a chroesawyd cwestiynau gan yr Aelodau.

Cyfeiriodd yr Aelodau at baragraff 4.5 yr adroddiad yn ymwneud â bod gan Adnoddau Dynol 51 o bolisïau gwahanol a chwestiynwyd a oes angen cymaint ohonynt ac a ellir cyfuno rhai ohonynt.  Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol: Pobl bod y 51 polisi sydd ar waith yn cynnwys cylch bywyd cyfan y gweithiwr, o recriwtio i adael neu ymddeol, roedd polisi ar gyfer bob agwedd o gyflogaeth gweithiwr gyda’r sefydliad.  Roedd y polisïau ar waith yn darparu amddiffyniad i’r Cyngor a’r gweithwyr.

Bu i’r Aelodau drafod y ffyrdd y gall adolygiadau gael cyn lleied o effaith â phosibl ar adnoddau a chwestiynwyd a ellir cyflawni gwell cyfeirio at yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy o fewn yr holl Bolisïau ac archwiliadau a gynhelir. Croesawodd y Prif Archwiliwr Mewnol yr awgrym a dywedodd y byddai’n ystyried cynnig uchod y Pwyllgor yng Nghynllun Archwilio’r flwyddyn ganlynol.

Gofynnodd Aelodau a oedd y Cyngor yn anfon unrhyw Wasanaethau Cymorth yn allanol.  Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol bod hyn yn ddibynnol ar y swyddogaeth cymorth. Er enghraifft, roedd gan y Cyngor wasanaethau cyfieithu ar gontract allanol, roedd eraill yn cael eu cynnal ar y cyd gydag awdurdodau lleol eraill e.e. y Gwasanaeth Caffael ar y Cyd gyda Chyngor Sir y Fflint, tra bod rhai gwasanaethau arbenigol iawn yn cael eu caffael gan ddarparwyr allanol, fodd bynnag, ni fyddai swyddogaethau cymorth eraill o fewn y Cyngor yn hyfyw yn ariannol i gael eu hanfon yn allanol.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol:  Llywodraethu a Busnes wrth yr Aelodau bod y Gyfarwyddiaeth Llywodraethu a Busnes wedi cael ei sefydlu ym mis Ebrill 2023 gyda’r bwriad o gyfuno gwasanaethau cymorth mewn un lle a’u cryfhau er mwyn darparu gwell cymorth i ddarparu gwasanaethau rheng flaen.  Roedd

sefydliad maint Sir Ddinbych yn gofyn am drefniadau llywodraethu da i'w galluogi i adeiladu gwydnwch a chefnogi trawsnewid gwasanaethau wrth symud ymlaen.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am yr adroddiad manwl ac am fynychu'r cyfarfod.

Ar ddiwedd trafodaeth fanwl:

***Penderfynwyd**: yn amodol ar yr arsylwadau uchod, cydnabod y cynnydd a wnaed hyd yma gan y Cyngor –*

***(i)*** ***i fynd i'r afael ar y ddau argymhelliad a nodir yn adolygiad Mai 2023 Archwilio Cymru 'A yw Swyddogaethau Cymorth Corfforaethol y Cyngor yn Effeithiol?'; ac***
***(ii)*** ***wrth ddarparu digon o adnoddau ar gyfer ei swyddogaethau gwasanaethau corfforaethol ehangach.***

**7 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO**

Cyflwynodd y Cydlynydd Craffu'r adroddiad a'r atodiadau (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) er mwyn gofyn i'r Pwyllgor adolygu ei raglen gwaith i'r dyfodol.

Roedd cyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu Perfformiad wedi'i drefnu ar gyfer 18 Ebrill 2024. Mewn ymateb i geisiadau gan swyddogion roedd y Cadeirydd wedi caniatáu i ddwy eitem fusnes gael eu gohirio o raglen fusnes y cyfarfod presennol i gyfarfodydd yn y dyfodol. Sef:

- Argymhellion Arolwg Estyn 2018, gohiriwyd tan y cyfarfod ym mis Mehefin 2024; a
- Strategaeth Datblygu Economaidd a Busnes, gohiriwyd tan gyfarfod y Pwyllgor ym mis Gorffennaf 2024.

Caniatawyd bod y ddwy eitem yn cael eu gohirio er mwyn rhoi mwy o amser i swyddogion ymgymryd â gwaith manwl mewn perthynas â'r testunau cyn eu cyflwyno ar gyfer Craffu.

Roedd Atodiad 2 yn cynnwys copi o ffurflenni Cynnig ar gyfer Craffu yr Aelodau ac anogwyd Aelodau i gwblhau'r ffurflen os oedd ganddynt unrhyw eitemau yr oeddent yn meddwl y byddai'n haeddu eu craffu.

Ers cyhoeddi'r papurau Pwyllgor, derbyniwyd cais i ohirio cyflwyno Strategaeth Ddiwygiedig Ddrafft ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol 2021/22 – 2029/30 o'r cyfarfod ym mis Ebrill i'r cyfarfod ym mis Mehefin, oherwydd newidiadau mewn personél. Os oedd y Pwyllgor yn fodlon caniatáu'r aildrefnu hwn, byddai angen iddo symud eitem fusnes o'i gyfarfod ym mis Mehefin 2024 i ddyddiad arall. Cytunwyd bod Adroddiad Perfformiad Cefndy 2023/2024 yn cael ei aildrefnu i gyfarfod y Pwyllgor ym mis Gorffennaf 2024 i fodloni'r cais hwn.

Roedd Rhaglen Waith y Cabinet yn Atodiad 3 er gwybodaeth.

Roedd Atodiad 4 yn amlinellu'r cynnydd a wnaed ar argymhellion y Pwyllgor o'i gyfarfodydd blaenorol.

Ar ddiwedd y drafodaeth:

***<u>Penderfynwyd</u>: yn amodol ar gynnwys yr adroddiad gwybodaeth ar Addysg Ddewisol yn y Cartref ar gyfer mis Mawrth 2025, ac aildrefnu Strategaeth Ddiwygiedig Ddrafft ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol 2021/22–2029/30 o gyfarfod mis Ebrill i fis Mehefin ac Adroddiad Perfformiad Cefndy 2023/24 o gyfarfod mis Mehefin i fis Gorffennaf, cadarnhau ei raglen waith fel yr amlinellwyd yn Atodiad 1 yr adroddiad.***

## 8 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGOR

Dywedodd y Cadeirydd wrth y Pwyllgor nad oedd wedi gallu mynychu cyfarfod diweddaraf Bwrdd Prosiect Marchnad y Frenhines ond cafodd wybod bod adeilad Marchnad y Frenhines bellach wedi'i drosglwyddo i'r Cyngor. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Llywodraethu a Busnes bod hynny'n wir. Aelodau:

***<u>Penderfynwyd</u>: nodi'r wybodaeth a ddarperir.***

**Daeth y cyfarfod i ben am 12.25pm**